Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl309

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Canolfan Mentergarwch Affricanaidd – Llwybrau at Ffyniant**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae Llwybrau at Ffyniant yn darparu gwasanaethau hiliol a diwylliannol sensitif sy'n addas ar gyfer yr oed i gymunedau ag anghenion cymhleth ac amlochrog ac sydd wedi'u hymyleiddio yn y gorffennol.

Gan gefnogi pobl ifainc o aelwydydd ar incwm isel, pobl sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol a mewnfudwyr, yn arbennig ffoaduriaid a cheiswyr lloches, y prif nod yw rhoi'r grym i'r unigolion hyn wireddu eu potensial llawn a chyfrannu at gymdeithas mewn modd cadarnhaol.

Mae'r prosiect yn cynnwys ymyriadau sy'n canolbwyntio ar Gyflogadwyedd a Chymorth Mentergar, Clwb Lles, Magu Hyder ac Ymgysylltu â'r Gymuned. Drwy'r ymyriadau hyn, bydd y prosiect yn cyfrannu at greu rhanbarth mwy diogel a chyfartal, lle mae niwed yn cael ei atal ac mae'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas yn cael eu grymuso i ffynnu.

Nod y prosiect yw darparu cymorth arbenigol, gan ystyried croestoriadedd buddiolwyr, a'u grymuso i wneud dewisiadau bywyd gwybodus a gwireddu eu huchelgais. Mae'r prosiect yn gwbl gydnaws â blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu, a bydd yn gweithio gyda phartneriaid cyflenwi allweddol er mwyn gwireddu'r amcanion hyn.

Gofynnwyd i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu am £26,466,72 ar gyfer sefydlu canolfan yn Llanelli i wasanaethu cymunedau Dyfed-Powys.

**Argymhelliad:**
Rhoi £26,446.72 i gefnogi'r Ganolfan Mentergarwch Affricanaidd â'i phrosiect Llwybrau at Ffyniant.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 11/07/23**